Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 9fed Ionawr 2016 am 7.00 o'r gloch

Presennol: Gadeirydd Wendy Whitby, Is Gadeirydd Eleri Puw, H.E. Thompson, Gareth Evans, Robert Jones, Clare Crowley, Cyng Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Ymddiheuriad: Elwyn Evans - sâl
Datgan Diddordeb: Gareth Evans rhif 6 Y Ganolfan
Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd Wendy Whitby.
Derbyniwyd cofnodion Rhagfyr 2016 a'u llofnodi gan y Cadeirydd,

1. Cae Chwarae: Nodwyd bod mainc gorau wedi ei difrodi noswyl y flwyddyn newydd. Pasiwyd i weld be fyddai costau trwsio. Pasiwyd i Jones & Jones drwsio ffens ochr ffordd y cae. Diolch i Cyng Thompson ac Evans.
2. Mynwent: dim yw adrodd
3. Llwybrau: Derbyniwyd ad daliad £450.00 gan Cyngor Gwynedd. Nodwyd bod ffens wedi ei osod ar y ffordd gefn o llyn Mwyngil, pryder bod polion a creosote yn y dwr. Pasiwyd i gysylltu a Cyfoeth Naturiol Cymru.
4. Cyng. Gwynedd: Adroddwyd bod y cyhoedd yn holi os oedd arian yn cae lei rhoi wrth gefn efo Cyngor Gwynedd. Nodwyd bod y Cynghorwyr yn dal i drafod cwynion parthed lle y daw cig ysgolion. Diolch Cyng Lawton.
5. Ciosg: Yr oedd y Clerc wedi gweld hysbysebion yn Minffordd, Tyn y Cornel, Llanfihangel ac Abergynolwyn, bygythiad cau ar ol ymgynghoriad o 42 diwrnod o 7/12/16. Nid oedd rhai yn ddwyieithog. Wedi cysylltu a Gwynedd, Gwynedd yn dweud mae Parc Eryri oedd yn gyfrifol. Erbyn hyn mae Cyngor Gwynedd wedi danfon copi o lythyr BT i rhai Cynghorau. Ni dderbyniwyd copi gan y Cyngor yma. Pasiwyd i ddangos ein pryder drwy'r papur newydd.
6. Difibrilator y Pentref: Derbyniwyd apêl yn nodi costau heb eu disgwyl, trafodwyd a phasiwyd i dalu yr un a ddaeth i law.
7. Praesept: Yr oedd y Clerc wedi paratoi mantolen ar gyfer 2016 / 2017 a 2017/2018. Ni allwn gadarnhau arian a ddaw mewn o'r mynwentydd ond bydd costau o £2,000.00, costau agor y toiledau am yr haf yn £2,000.00, costau llwybrau £660.00 ond heb gwybod faint ddaw yn ol o Gwynedd, biniau halen yn £100.00 yr un ac mae yna bump - £500.00. Ni allwn gadarnhau faint bydd costau Etholiad eleni, trafodwyd sedd newydd i'r cae Chwarae ond trio am help at hwn. Gan fod penderfyniad y Cyfarfod Cyhoeddus yn gadarn ein bod yn cadw ymlaen efo gwarchod yr ardal, y penderfyniad a basiwyd yw codi y Praesept i £10,755.00.
8. Cyllideb: Pasiwyd y byddem yn cael archwiliad ar y gyllideb ym Mehefin, Medi a Ionawr.
9. Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth nad oedd Un Llais yn codi am y cwrs yn Bala, Pasiwyd i Cyng Thompson a'r Clerc fynd ar Cwrs yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth ar y 2ail Chwefror – Cyllid Llywodraeth Leol – byddai y cwrs yn help at yr archwiliad.
10. Biniau Halen: Wrth trafod lleoliad y biniau, nodwyd bod pump yn ein hardal, sef Rhiw Cwrt, Nant yr Ysbryd, Rhiw llan, Ffordd am Ty Mawr , Rhiw y banciau ar ol Ty Mawr.
11. Gwahoddiad: Derbyniwyd gwahoddiad gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i agoriad swyddogol dablygiad newydd Ysbyty Tywyn, i'w gynnal gan Mr Vaughan Gething AC yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd, Lleisiant a Chwaraeon. Pasiwyd i'r Clerc ein cynrhychioli.
12. BDO: Derbyniwyd llythyr gan yr Archwiliwyr allanol y byddai archeb am y gwaith yn dilyn yn fuan.
13. Parc Eryri: Derbyniwyd ail gais ac addasiad am Meriafel , trafodwyd hyn a phenderfynwyd ei fod yn llawer gwell.
14. Priffyrdd: Daeth Iwan Richards a neges ei fod yn mynd i edrych llwybyr Dona i'r pentref, hefyd edrych y llinellau y parc ceir. Adroddod bod y Drych i cyffordd Stryd Llanegryn wedi ei basio ac yng ngofal Trafnidiaeth Caernarfon.
15. Nodwyd bod Mrs Barbara Jones, Llanerchgoediog wedi derbyn B.E.M., yr oeddym yn falch iawn drosti a phasiwyd i ddanfon cerdyn llongyfarchiadau.
16. Taliadau: Y Ganolfan Diffibrilator 29.94 siec 882

YMDDIRIEDOLAETH - MARI JONES:
Derbyniwyd £10.60 – diolch i'r Cyng. Evans
Pasiwyd i dacluso cyn y Pasg.

Cyfarfod Nesaf Nos Lun 13eg Chwefror 2017 - Cyffredin am 7 o'r gloch